

# **Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol lle rhoddwyd Rhybudd**

Hosbis Plant Tŷ Hafan

Dyddiad yr arolygiad: 19 a 20  
Hydref 2021

Dyddiad cyhoeddi: 08 Chwefror  
2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

|    |                                                                           |    |
|----|---------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                                   | 5  |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad .....                                             | 6  |
| 3. | Yr hyn a ganfuom.....                                                     | 8  |
|    | Ansawdd profiad y claf .....                                              | 10 |
|    | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....                                 | 17 |
|    | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....                                 | 23 |
| 4. | Beth nesaf? .....                                                         | 34 |
| 5. | Sut rydym yn adolygu gwasanaethau annibynnol .....                        | 35 |
|    | Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad n..... | 36 |
|    | Atodiad B – Cynllun gwella .....                                          | 37 |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o hosbis plant Tŷ Hafan ar 19 a 20 Hydref 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaeth y plant a'u rhieni/gwarcheidwaid a gymerodd ran yn yr arolygiad sylwadau cadarnhaol ar y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd.

Roedd anghenion gofal y plant wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r plant i hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr hosbis, gyda mwyafrif y staff yn gwneud sylwadau cadarnhaol ar y cymorth a gawsant gan y tîm rheoli.

Canfuom ychydig o dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl reoliadau ym mhob maes. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y prif adroddiad.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan
- Ymgysylltu â staff
- Gwasanaethau cymorth a therapïau
- Asesu a chynllunio gofal da – dull tîm amlddisgyblaethol
- Ymgysylltu a chynnwys teuluoedd
- Hyfforddiant staff
- Systemau Iechyd a Diogelwch
- Rheoli meddyginiaeth
- Prosesau archwilio ac adrodd.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adborth i rieni/gwarcheidwaid ar arhosiad eu plentyn

- Hyfforddiant ystum y corff
- Manylion y trefniadau bwydo mewn cynlluniau gofal
- Adroddiad ar ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol.

Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn achosion o dorri rheoliadau o ran rhai agweddau ar gyfathrebu â rhieni/gwarcheidwaid, rhai agweddau ar hyfforddi staff, ac o ran cwblhau adroddiadau yn dilyn ymweliadau Unigolyn Cyfrifol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfedd â rheoliadau.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Tŷ Hafan wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) fel hosbis plant annibynnol yn Hayes Road, Sili, Bro Morgannwg. Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 21 Tachwedd 2003.

Mae Tŷ Hafan yn cynnig gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol rhad ac am ddim i blant yng Nghymru sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd na fyddant efallai'n cyrraedd y byd oedolion ac yn cefnogi eu teuluoedd yn ystod eu bywyd, ar ddiwedd eu hoes a thrwy brofedigaeth. Mae Tŷ Hafan yn elusen gofrestredig, sy'n dibynnu bron yn gyfan gwbl ar roddion gan y cyhoedd i gynhyrchu arian i alluogi i wasanaethau gofal gael eu darparu.

Mae'r gwasanaeth yn darparu llety, gofal a thriniaeth ar gyfer hyd at ddeg o blant/unigolion ifanc o dan 18 oed gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.

Mae'r hosbis hefyd yn darparu llety i rieni a brodyr a chwiorydd o fewn ystafelloedd deniadol sydd newydd gael eu hadnewyddu ar y llawr cyntaf.

Mae gan yr hosbis dîm o staff sy'n cynnwys nyrsys cofrestredig (sydd â chymwysterau i ofalu am blant a gofal lliniarol, anableddau dysgu a nyrsio oedolion), staff cadw tŷ, tîm chwarae, uwch-reolwyr, staff gweinyddol, gwirfoddolwyr, ffisiotherapyddion, staff meddygol, cymorth gofal iechyd gweithwyr, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion cerdd, therapyddion cyflenwol a therapydd galwedigaethol. Mae gan Tŷ Hafan ei feddyg ymgynghorol gofal lliniarol pediatrig ei hun, gyda'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan feddygon ymgynghorol. Mae Tŷ Hafan hefyd yn ganolfan ar gyfer tîm gofal lliniarol pediatrig trydyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Darperir ystod o wasanaethau yn Nhŷ Hafan sy'n cynnwys y canlynol:

- Gofal seibiant byr
- Gofal cam-i-lawr
- Derbyniadau brys a rheoli symptomau
- Gofal diwedd oes a rheoli symptomau
- Cydweithio â phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol
- Ffisiotherapi

- Hydrotherapi
- Gwasanaethau chwarae
- Addysg
- Therapi cerdd a therapïau cyflenwol
- Gwasanaeth allgymorth
- Cymorth teulu a phrofedigaeth.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Mynegodd mwyafrif helaeth y rhieni/gwarcheidwaid a gyfrannodd at yr arolygiad foddhad gyda'r gofal a'r driniaeth a ddarperir yn Nhŷ Hafan. Dywedwyd wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol iawn rhwng y staff a'r plant, gyda'r staff yn cefnogi'r plant mewn modd urddasol a pharchus.

Gwelsom y staff yn rhoi sylw i'r plant mewn modd tawel a chysurlon.

Roedd holl amgylchedd yr hosbis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn daclus.

Cyn yr arolygiad, cyhoeddodd AGIC arolygon ar-lein ac ar bapur i gael barn y plant am y gwasanaeth a ddarperir yn Nhŷ Hafan. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o dri ymateb.

Gwnaeth y tri ymatebydd sylwadau cadarnhaol ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir yn Nhŷ Hafan.

Cyhoeddodd AGIC arolygon ar-lein ac ar bapur hefyd i gael barn rhieni/gwarcheidwaid am y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 11 o ymatebion. Gwnaethom hefyd siarad â rhiant dros y ffôn.

Dywedodd yr holl ymatebwyr wrthym fod y gwasanaeth a ddarperir yn Nhŷ Hafan yn dda iawn. Fodd bynnag, gwnaeth nifer fach o rieni/gwarcheidwaid awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r gwasanaeth ymhellach.

Dyma rai o'r sylwadau cadarnhaol a gawsom gan rieni/gwarcheidwaid:

*"Mae gofal seibiant Tŷ00205} Hafan yn achubiaeth i'n teulu....Mae ein mab wrth ei fodd yno ac yn gyffrous iawn bob tro y byddwn yn siarad ag ef am arosiadau i ddod."*

*"Mae'r gofal wedi bod yn wych. Mae'r staff yn ofalgar iawn, ac yn bennaf oll, yn llawn hwyl. Dwi byth yn poeni am ei ddiogelwch, ei dwf, na'i ddatblygiad pan fydd yn Nhŷ Hafan."*

*“Mae Tŷ Hafan yn achubiaeth i’n teulu – ni fyddem yn gallu goroesi hebddo. Maen nhw yno i ni pryd bynnag rydyn ni eu hangen - yn Sili, gartref ac yn yr ysbyty.”*

*“Mae Tŷ Hafan yn rhoi egni a chryfder i mi mewn ffordd na all neb arall – mae’n ymwneud â’r teulu cyfan ac mae hynny’n amhrisiadwy.”*

*“Mae fy mhlant eraill wrth eu bodd â’r gweithgareddau brodyr a chwiorydd.”*

Dyma rai o’r awgrymiadau a wnaed gan rieni/gwarcheidwaid ynghylch sut i wella’r gwasanaeth ymhellach:

*“Mae angen mwy o gymorth ar staff gyda hyfforddiant ystum y corff ac ati. Efallai cymorth gan therapydd galwedigaethol? Hefyd, mae angen edrych yn fwy gofalus ar gynlluniau gofal, yn enwedig trefniadau bwydo ac ati.”*

*“Byddai mwy o gymorth a digwyddiadau brodyr a chwiorydd yn Abertawe a Gorllewin Cymru yn ddefnyddiol iawn.”*

## **Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd**

Gwelsom fod arwyddion mewn gwahanol rannau o amgylchedd yr hosbis a oedd yn ysgogi pawb i wisgo mwgwd wyneb, lle bo’n briodol, a golchi eu dwylo. Roedd peiriannau glanhau dwylo ar gael i staff ac ymwelwyr eu defnyddio er mwyn helpu i leihau’r risg o draws-heintio.

Mae gan yr hosbis ystod eang o gyfleusterau a rhaglenni i wella llesiant plant a theuluoedd. Roedd teganau ac eitemau addysgol ar gael i’r plant ryngweithio â nhw. Mae plant a theuluoedd hefyd yn elwa ar fynediad i erddi a mannau awyr agored sy’n cael eu cynnal yn dda, gan gynnwys offer chwarae sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan yr hosbis gydlynwyr chwarae penodol sy’n hwyluso ystod o sesiynau cerddoriaeth, chwarae a synhwyrdd trwy gydol y dydd. Mae gan blant a theuluoedd fynediad hefyd i bwl nofio ar gyfer ymlacio a hydrotherapi, sawl ystafell weithgareddau ar gyfer celf a chrefft ac ystafelloedd synhwyrdd penodol i blant ryngweithio â golau a sain.

Dywedodd rhieni/gwarcheidwaid a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym fod y ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd chwarae ar gyfer y plant yn dda iawn.

Roedd trefniadau cynnal a chadw da ar waith. Roedd y mannau cymunol, yr ystafelloedd gwely a’r tiroedd yn lân, yn daclus ac yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r unigolion cofrestredig werthuso'r awgrymiadau a wnaed gan y rhieni/gwarcheidwaid mewn ymateb i'r arolwg ar-lein ac ystyried a ellir gwneud gwelliannau pellach i'r gwasanaethau a ddarperir.

### Urddas a pharch

Roedd y plant yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm staff.

Dywedodd rhieni/gwarcheidwaid wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais ac yn ofalgar tuag atynt hwy a'u plentyn.

Gwelsom y staff yn bod yn garedig ac yn barchus tuag at y plant. Gwelsom y staff yn ymdrechu i amddiffyn preifatrwydd ac urddas plant wrth ddarparu cymorth gydag anghenion gofal personol.

Roedd yn ymddangos bod y plant yn cael gofal da, gyda'r staff yn rhoi sylw penodol i'w hymddangosiad a'u dillad.

Roedd anghenion toiled y plant yn cael eu trin mewn ffordd sensitif ac urddasol. Dywedodd rhieni/gwarcheidwaid wrthym pan fydd angen i'w plentyn fynd i'r toiled, eu bod yn gallu gwneud hynny mor annibynnol â phosibl, a bod y staff yn helpu eu plentyn ag anghenion toiled mewn ffordd sensitif.

Roedd yr amgylchedd wedi'i gynllunio'n feddylgar; roedd yr ystafelloedd yn helaeth ac wedi'u dodrefnu a'u haddurno i safon dda iawn. Roedd gan y plant a'u perthnasau/gwarcheidwaid fynediad i lolfeydd/mannau bwyta cymunedol, ac roedd lolfa/ardaloedd eistedd llai, tawelach ar gyfer pobl sy'n ffafrio amgylchedd mwy preifat.

Roedd gan ystafelloedd y plant gyfleusterau toiled a bath gyda theclynnau codi nenfwd sefydlog i'w helpu i'w trosglwyddo. Roedd digon o le yn yr holl ystafelloedd ymolchi ac roedd digon o offer ynddynt.

Roedd hefyd nifer o ystafelloedd ymolchi/toiledau cymunedol eang ar gael i'r plant eu defnyddio.

Mae Tŷ Hafan hefyd yn cynnig llety i deuluoedd, gan gynnwys brodyr a chwiorydd, i aros gyda'u plentyn. Roedd yr ardal hon wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar i safon uchel iawn. Esboniodd y staff fod yr ystafelloedd a'r cyfleusterau yn hyblyg i alluogi rhieni i gysgu yn ystafell eu plentyn, os dymunant wneud hynny. Anogir teuluoedd i dreulio amser gyda'i gilydd yn gymunol ac yn breifat ac mae ystod o raglenni gweithgaredd ar gael i gefnogi hyn.

## Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Mae gan yr hosbis ddatganiad o ddiben cynhwysfawr a chanllaw i gleifion ar waith sy'n bodloni gofynion y rheoliadau o ran ei gynnwys.

Roedd gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd a phamffledi ar gael mewn gwahanol rannau o'r hosbis.

Dywedodd y staff wrthym y ceisir dymuniadau, hoffterau a chaniatâd y plant, lle bo modd, a'u bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae rhieni/gwarcheidwaid y plant hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau cynllunio gofal fel y bo'n briodol.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol yr ymweliad arolygu, gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r plant mewn modd gofalus, cyfeillgar a siriol. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r plant mewn modd calonogol a chynhwysol.

Dywedodd rhieni/gwarcheidwaid wrthym fod staff bob amser yn gwrando arnynt hwy a'u plentyn a'u bod bob amser yn esbonio'r hyn y maent yn ei ddisgwyl ganddynt yn ystod arhosiad eu plentyn yn Nhŷ Hafan.

Dywedodd y mwyafrif o'r rhieni/gwarcheidwaid a gyfrannodd at yr arolygiad wrthym, os na allant aros gyda'u plentyn yn yr hosbis, yna bydd y staff yn egluro sut y gofelir am eu plentyn yn eu habsenoldeb.

Dywedodd un rhiant/gwarcheidwad wrthym, er ei fod yn hapus â'r gwasanaeth a gynigir yn yr hosbis, gellid gwella'r adborth a dderbyniwyd gan staff ar ddiwedd arhosiad plentyn:

*“Yr unig bwynt yr hoffwn ei wneud yw bod adborth am arhosiad fy mhleintyn yn gallu bod yn wael. Oni bai am hynny, mae ein plentyn yn derbyn gofal da gan staff anhygoel.”*

Canfuom fod cyfathrebu da rhwng aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol yn Nhŷ Hafan a oedd yn cynnwys aelodau o'r tîm nyrsio cymunedol a gwasanaethau cymdeithasol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r unigolion cofrestredig sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn cael adborth manwl am arhosiad eu plentyn yn Nhŷ Hafan.

## Cynllunio a darparu gofal

Roedd dull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal gyda phrosesau cyfathrebu da ar waith. Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn darparu gofal unigol i gleifion yn unol â'u hanghenion. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer atgyfeirio newidiadau yn anghenion cleifion at weithwyr proffesiynol eraill megis nyrs hyfywedd meinwe, therapyddion lleferydd ac iaith, a dietegwyr.

Gweithiodd y tîm mewn ymgynghoriad â gweithwyr gofal lliniarol a gofal iechyd proffesiynol y bwrdd iechyd. Felly, gallai staff gael mynediad at gymorth a chynghor arbenigol ychwanegol pan fo angen, er enghraifft gan feddygon ymgynghorol a fferyllwyr.

Dywedwyd wrthym fod y cymorth a gafwyd gan feddygon teulu yn dda ar y cyfan. Roedd cytundeb lefel gwasanaeth ar waith ar gyfer cymorth gan feddygon teulu gydag un o'r meddygon o'r practis lleol yn ymweld â'r hosbis yn ddyddiol. Mae'r holl blant yn cael eu gweld a'u hasesu gan y meddyg teulu pan gânt eu derbyn.

Roedd ansawdd y dogfennau gofal y gwnaethom edrych arnynt yn dda ar y cyfan. Gwelsom dystiolaeth fod asesiadau cynhwysfawr o anghenion gofal yn cael eu cynnal a bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diwedddaru'n rheolaidd. Mae cynlluniau gofal yn cael eu rhoi ar waith cyn cael eu derbyn ac maent yn seiliedig, cyn belled ag sy'n ymarferol, ar y drefn y byddai'r plentyn yn ei ddilyn gartref.

Roedd dogfennau cynllunio gofal yn cael eu cadw'n electronig ar gronfa ddata gofal ac roedd y staff yn defnyddio dyfeisiau tabled electronig unigol i gael mynediad i ddogfennau a'u diwedddaru.

Roedd cynlluniau gofal hefyd yn fanwl ac roedd adolygiadau a diweddariadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd y gwerthusiadau ysgrifenedig a gwblhawyd gan y staff gofal ar ddiwedd pob shift yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofal a ddarperir.

Roedd y ddarpariaeth gofal yn amlwg yn seiliedig ar anghenion penodol ac amrywiol y plentyn. Roedd y dull hwn yn cael ei adlewyrchu yn fformat yr unigolyn, y ddogfennaeth cynllunio ac adolygu gofal.

Dywedodd y staff wrthym fod y plant a'u perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a bod annibyniaeth cleifion yn cael ei hyrwyddo.

Dywedodd plant a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym eu bod yn ymwneud â chynllunio a darparu eu gofal eu hunain. Dywedodd rhieni/gwarcheidwaid wrthym eu bod yn ymgynghori â hwy a'u bod yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau a gwneud penderfyniadau ynghylch darparu gofal.

Roedd sylwadau gan rieni/gwarcheidwaid yn cynnwys y canlynol:

*“Mae’r holl dimau a’r staff yn cyfathrebu â’i gilydd, felly nid oes angen i mi ailadrodd fy hun dro ar ôl tro – mae’n teimlo’n gydgysylltiedig ac mae hynny’n anhygoel.”*

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Gwelsom fod y staff yn darparu gofal mewn ffordd sy’n hyrwyddo ac yn amddiffyn hawliau’r plant.

Gwelsom fod y staff yn amddiffyn preifatrwydd ac urddas plant wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau i ystafelloedd gwely ar gau pan oedd gofal yn cael ei ddarparu.

Cwblheir Cynllun Gofal Ymlaen Llaw Pediatrig<sup>1</sup> mewn ymgynghoriad â’r plentyn a/neu ei rieni/gwarcheidwad cyn derbyn plentyn.

Cadarnhaodd yr holl rieni/gwarcheidwaid a gwblhaodd yr arolwg ar-lein y gall eu plentyn gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser iawn (waeth beth fo’i Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a phartneriaeth sifil, Beichiogrwydd a mamolaeth, Hil, Crefydd neu gred, Rhyw a Cyfeiriadedd rhywiol).

Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn gallu cyfathrebu â staff yn eu hiaith ddewisol a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn eu hiaith ddewisol.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a’u hadborth**

Cyfeirir at weithdrefnau pryderon a chwynion yr hosbis yn y datganiad o ddiben, y canllaw i gleifion ac ar y wefan. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â rheoliadau a safonau.

Roedd systemau ar waith i gasglu barn plant a’u rhieni/gwarcheidwaid am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir drwy holiadur neu drwy arolwg adborth

---

<sup>1</sup> Mae Cynllun Gofal Ymlaen Llaw Pediatrig yn ddogfen Cymru gyfan sydd wedi’i chymeradwyo gan bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Gellir defnyddio’r ddogfen hon ar gyfer teuluoedd plant o dan 18 oed neu unigolyn ifanc o dan 18 oed sydd â phroblemau yn ymwneud â galluedd.

defnyddwyr gwasanaeth electronig. Gall plant a'u rhieni/gwarcheidwaid hefyd ofyn am gael siarad â'r nyrs arwain sydd ar ddyletswydd neu ofyn am gael siarad ag aelod o dîm rheoli'r gwasanaethau gofal. Gellir hefyd darparu sylwadau yn electronig trwy wefan Tŷ Hafan.

Dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a dderbyniwyd am y gwasanaeth yn isel iawn ac mai'r nod oedd datrys problemau cyn gynted â phosibl er mwyn atal unrhyw uwchgyfeirio.

Roedd yr holl gwynion yn cael eu cofnodi a'u harchwilio a'u hymchwilio'n drylwyr gan ddefnyddio dull<sup>2</sup> dadansoddiad o wraidd y broblem. Amlygwyd pwyntiau dysgu, a chawsant eu cyfleu i staff er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

Dywedodd yr holl rieni/gwarcheidwaid a gyfrannodd at yr arolygiad eu bod yn gwybod sut i godi pryderon, pe bai ganddynt rai.

---

<sup>2</sup> Diffinnir dadansoddiad o wraidd y broblem fel term torfol sy'n disgrifio ystod eang o ddulliau, offer a thechnegau a ddefnyddir i ddarganfod achosion problemau.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y tîm o staff wedi ymrwymo i roi gofal diogel ac effeithiol i blant.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo gyda throsglwyddo plant.

Roedd yr hosbis yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaeth ffurfiol ar waith.

Roedd anghenion gofal y plant wedi eu hasesu gan staff ac roedd staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Canfuom bod asesiadau risg ac archwiliadau clinigol cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r perygl o niwed i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Wrth archwilio sampl o gofnodion gofal plant, gwelsom fod asesiadau risg mannau pwyso yn cael eu cynnal ar adeg derbyn plant a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd cyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud at y nyrs hyfywedd meinwe arbenigol yn ôl yr angen.

Gwelsom fod y perygl o gwympto'n cael ei reoli'n briodol a bod asesiadau risg yn cael eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd. Canfuwyd bod yr asesiadau risg a'r cynlluniau gofal cysylltiedig wedi'u personoli a'u teilwra i'r plentyn unigol.

Cyflogir ffisiotherapydd rhan-amser yn yr hosbis a dywedwyd wrthym ei fod yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau gofal sy'n gysylltiedig â'r perygl o gwympto a symudedd.

Mae'r hosbis yn cyflogi pennaeth ystadau a chyfleusterau sy'n gyfrifol am bob agwedd ar iechyd a diogelwch ar draws y gwasanaeth. Roedd y rheolwr iechedd

a diogelwch hefyd yn gyfrifol am gynnal archwiliadau rheolaidd, a chaiff y canlyniadau eu hadrodd i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, a hefyd am drefnu a darparu hyfforddiant i staff ar iechyd a diogelwch.

Roedd gan y rheolwr iechyd a diogelwch fewnwelediad a throsolwg da iawn o'r gwaith adfer a oedd yn cael ei wneud yn yr hosbis ac yn y tiroedd cyfagos. Roedd cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal gyda'r contractwyr a oedd ag anghenion gofal plant unigol ar flaen y gad o ran gwneud penderfyniadau ynghylch y gwaith adnewyddu parhaus i sicrhau eu diogelwch a'u llesiant parhaus.

### Atal a rheoli heintiau a dadhalogi

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith. Dynodwyd un o'r nyrsys yn arweinydd rheoli heintiau ar gyfer yr hosbis.

Gwelsom fod gweithdrefnau rheoli COVID-19 cadarn ar waith, gyda'r holl ymwelwyr yn cael eu sgrinio cyn mynd i mewn i'r hosbis.

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod staff yn cadw at bolisiâu ac egwyddorion arfer da COVID-19 ac atal a rheoli heintiau.

Gwelwyd posteri yn arddangos gwybodaeth am atal a rheoli heintiau wedi'u gosod o amgylch yr hosbis, gan gynnwys llety'r rhiant/gwarcheidwad. Yn ogystal â hyn, roedd monitor teledu yn ystafell y staff yn arddangos gwybodaeth am atal a rheoli heintiau a phynciau eraill.

Roedd yr hosbis yn cael ei adnewyddu'n helaeth ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, canfuwyd bod pob un o'r mannau a welwyd yn lân ac yn daclus. Gwelwyd rotâu glanhau a 'sticeri rydw i'n lân' i'w gweld ar eitemau o offer. Gwelwyd staff cadw tŷ yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd ddiwyd gan roi sylw arbennig i arwynebeddau cyswllt uchel fel dolenni ac arwynebeddau gwaith.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio, ac roeddent yn eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd orsafoedd glanhau dwylo wedi'u gosod yn strategol ger mynedfeydd/allanfeydd i staff ac ymwelwyr eu defnyddio, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Cadarnhaodd y staff a gyfrannodd at yr arolygiad fod y sefydliad wedi gweithredu'r newidiadau amgylcheddol ac arferion angenrheidiol, a bod cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol.

Dywedodd pob un o'r rhieni/gwarcheidwaid a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym fod yr hosbis yn lân ac yn daclus, a bod mesurau rheoli heintiau COVID-19 yn cael eu dilyn, lle bo'n briodol.

Nid oedd teganau'n cael eu rhannu rhwng plant er mwyn lleihau'r risg o groesheintio. Roedd teganau ar gael i bob plentyn, ac roeddent yn cael eu cadw yn eu hystafell drwy gydol eu harhosiad yn Nhŷ Hafan.

## Maeth

Wrth archwilio sampl o ffeiliau gofal, gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed cleifion wedi'u hasesu wrth eu derbyn i'r hosbis, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd cynlluniau gofal yn nodi'n glir sut y dylid bwydo'r plentyn e.e. drwy'r geg neu drwy'r croen (gastrostomi)<sup>3</sup>, pa atchwanegiad bwyd arbenigol sydd ei angen, ac ar ba amser y rhoddir y rhain.

Gwelsom fod siartiau monitro'n cael eu defnyddio lle bo angen, er mwyn sicrhau bod y plant yn bwyta ac yn yfed digon.

Mae'r holl brydau'n cael eu coginio'n ffres ar y safle, ac roedd system effeithiol ar waith i ddarparu ar gyfer anghenion dietegol unigol, gyda chyfathrebu da rhwng staff gofal ac arlwyo.

Gwnaeth rhieni/gwarcheidwaid a gyfrannodd at yr arolygiad sylwadau cadarnhaol ar y bwyd a diod a ddarperir yn yr hosbis, a dywedasant wrthym fod y fwydlen yn gyfeillgar i blant, a bod darpariaeth ar gyfer dognau amrywiol o ran maint.

Dywedodd rhieni/gwarcheidwaid wrthym hefyd fod staff yn helpu eu plentyn i fwyta os oes angen cymorth arno, a'u bod yn caniatáu digon o amser iddynt fwyta ar eu cyflymder eu hunain.

Gwelsom fod dietegydd yn y gymuned yn ymwneud ag asesu a chynllunio anghenion maethol plant, a bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer asesiad therapi lleferydd ac iaith os oedd angen.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a chanfod eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan.

---

<sup>3</sup> Mae gastrostomi yn agoriad llawfeddygol trwy groen yr abdomen i'r stumog. Rhoddir dyfais fwydo yn yr agoriad hwn fel y gellir danfon bwyd yn syth i'r stumog gan osgoi'r geg a'r gwddf.

Gwelwyd bod rhai o'r plant ar feddyginiaethau cymhleth gyda llawer wedi bod yn derbyn meddyginiaeth ar bresgripsiwn am gyfnodau hir.

Asesir plant i ganfod faint o gymorth, os o gwbl, sydd ei angen arnynt i reoli eu meddyginiaeth. Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol mewn cypyrddau y gellir eu cloi yn yr ystafell driniaeth.

Mae'r hosbis yn cyflogi fferylllydd sy'n mynychu'n wythnosol i gefnogi'r gwaith o reoli meddyginiaethau'n ddiogel ac i roi canllaw a chymorth i staff. Mae'r fferylllydd a gyflogir yn Nhŷ Hafan ar hyn o bryd hefyd yn gweithio yn y gymuned, ac yn gyfarwydd â'r plant a'u gofynion meddyginiaeth. Rhoddwyd ystyriaeth i gynyddu presenoldeb y fferylllydd yn yr hosbis i ddau ddiwrnod yr wythnos, a hefyd i gyflogi technegydd fferyllol.

Gwelsom fod fframwaith cymwyseddau rheoli a gweinyddu meddyginiaeth ar waith, ac roedd y staff a oedd yn rhoi meddyginiaeth wedi dilyn hyfforddiant ffurfiol.

Roedd fforwm rheoli meddyginiaeth wedi'i sefydlu, a oedd yn cyfarfod bob dau fis. Roedd cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu cofnodi a'u rhannu gyda'r staff. Roedd gwybodaeth am rybuddion meddyginiaeth ac ati hefyd yn cael ei rhannu gyda staff trwy e-bost ac ar yr hysbysfwrdd. Yn ogystal â hyn, roedd dogfen Materion Meddyginiaeth yn cael ei chynhyrchu bob mis. Roedd y ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o faterion yn ymwneud â rheoli meddyginiaeth ac yn amlygu unrhyw hysbysiadau diogelwch, digwyddiadau, diweddariadau archwilio, pwyntiau dysgu a newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau.

Roedd fframwaith ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli gwallau meddyginiaeth. Canfuom fod yr holl gamgymeriadau meddyginiaeth a damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu cofnodi a'u hadrodd, hyd yn oed os ydynt yn digwydd y tu allan i Dŷ Hafan, er enghraifft, yng nghartref y plentyn ei hun.

Ymchwilir i wallau meddyginiaeth gan ddefnyddio dull dadansoddiad<sup>4</sup> o wraidd y broblem a chaiff y canfyddiadau eu cyfleu i staff er mwyn cefnogi dysgu ac osgoi y siawns y bydd yn digwydd eto.

---

<sup>4</sup> Dadansoddiad o wraidd y broblem yw'r broses o ddarganfod gwraidd problemau er mwyn canfod atebion priodol. Mae dadansoddiad o wraidd y broblem yn cymryd yn ganiataol ei bod yn llawer mwy effeithiol i atal a datrys materion sylfaenol yn systematig yn hytrach na thrin symptomau yn achlysurol.

## **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig wedi'u sefydlu ac roedd y staff wedi dilyn hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Mae gan yr hosbis arweinydd diogelu sy'n gyfrifol am reoli unrhyw atgyfeiriadau, ac mae'n bwynt cyswllt i staff ar gyfer yr holl faterion diogelu.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol yn yr hosbis ar adeg yr arolygiad.

## **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Roedd amrywiaeth o offer meddygol ar gael yn yr hosbis a oedd mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

## **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

O'n trafodaethau gyda'r staff, a thrwy archwilio dogfennau gofal cleifion, canfuom fod y plant yn derbyn gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu yn unol â llwybrau a fframweithiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i gefnogi'r ddarpariaeth gofal ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a'r staff therapi.

Dywedodd rhieni/gwarcheidwaid wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif i'w plentyn wrth ddarparu gofal a thriniaeth.

Gwelsom ryngweithio da iawn rhwng y staff a'r plant, gyda'r staff yn rhoi sylw i anghenion y plant mewn modd cynnil a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r plant ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain er mwyn cynnal eu hannibyniaeth.

Gwelsom fod y gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ddiogel ac yn effeithiol, gyda gofal y plant, yn ogystal â darparu cymorth i'w perthnasau/gwarcheidwaid, yn brif flaenoriaethau i'r staff.

Roedd prosesau ffurfiol ar waith pe bai cyflwr plentyn yn gwaethygu, gyda rhai plant yn cael mynediad agored a chyflym i'r adran achosion brys yn yr ysbyty

agosaf. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant penodol mewn asesu ac ymateb i ddirywiad yng nghyflwr plentyn.

Roedd systemau cadarn ar waith ar gyfer cymorth brys y tu allan i oriau, gan gynnwys gwasanaethau brys a meddygon teulu. Roedd gan staff fynediad at enwau cyswllt o fewn y gwasanaeth ambiwlans y gallent gysylltu â nhw'n uniongyrchol pe bai oedi yn ymateb yr ambiwlans.

Roedd poen yn cael ei reoli'n briodol trwy ddefnyddio offer asesu poen ffurfiol a rhoi cyffuriau lleddfu poen priodol, wedi'u rhagnodi.

Canfuom bod gwasanaethau cymorth, eiriolaeth, seicoleg, cwnsela, galar rhagweledol, diwedd oes, cynllunio angladd a chymorth profedigaeth da ar gael i deuluoedd.

### Gweithgareddau

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r hosbis yn cyflogi cydlynwyr chwarae penodol sy'n hwyluso ystod o weithgareddau sy'n briodol i'r oedran, gan gynnwys cerddoriaeth, chwarae a sesiynau synhwyrdd drwy gydol y dydd. Roedd tegau ac eitemau addysgol ar gael i'r plant ryngweithio â nhw. Mae plant a theuluoedd hefyd yn elwa ar fynediad i fannau allanol, gan gynnwys offer chwarae sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

Dyweddodd rhieni/gwarcheidwaid a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym fod y ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd chwarae ar gyfer y plant yn dda iawn. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod rhai o'r gwasanaethau chwarae a chymorth wedi'u heffeithio oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd o ganlyniad i'r pandemig.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*“Nid oedd yr holl gyfleusterau ar agor oherwydd COVID-19 a'r gwaith adnewyddu, ond cawsom wybod am hyn ymlaen llaw felly roeddem wedi paratoi ar ei gyfer”*

### Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Trwy archwilio cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

## Rheoli cofnodion

Gwelsom systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am gleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel, yn electronig ac ar bapur.

Roedd cofnodion gofal cleifion yn cael eu cadw'n dda ac roedd y ffeiliau wedi'u gosod mewn ffordd a oedd yn eu gwneud yn hawdd i'w defnyddio.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Iechyd a Gofal a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Gwelsom fod rheolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn yn yr hosbis, gyda staff yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y cymorth a gawsant gan eu rheolwyr llinell.

Dywedodd mwyafrif helaeth y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yn bodoli. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o strwythur yr uwch-reolwyr o fewn y sefydliad, a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a staff yn effeithiol ar y cyfan.

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi dulliau llywodraethu a rheoli'r hosbis.

Roedd systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod y ffocws ar wella'r gwasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, trwy raglen dreigl o archwilio a'i strwythur llywodraethu sefydledig a alluogodd aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau gyda'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau goruchwylio a chefnogi staff anffurfiol o ddydd i ddydd ar waith.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o staff a chanfod eu bod yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Mae'r unigolyn cyfrifol (Cyfarwyddwr Gofal) wedi'i leoli yn yr adeilad gweinyddol sydd wedi'i leoli ger Tŷ Hafan, ac mae'n mynychu'r hosbis o leiaf dri diwrnod yr wythnos gan gynnal cyfarfodydd un-i-un ffurfiol gyda'r rheolwr bob mis. Mae hyn yn ei galluogi i fonitro'r gwasanaeth a'i bod ar gael i staff, cleifion a pherthnasau.

Mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn ymweld â'r hosbis yn rheolaidd.

Roedd gan yr Ymddiriedolwyr drosolwg da o'r gwasanaeth trwy eu hymweliadau rheolaidd â'r hosbis a thrwy'r prosesau adrodd ac uwchgyfeirio rheolwyr.

Roeddem yn fodlon ar lefel yr oruchwyliaeth o'r gwasanaeth gan aelodau'r uwch-dîm rheoli a bwrdd yr ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, gwnaethom dynnu sylw at yr angen i'r unigolyn cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau'n llawn o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mewn perthynas ag ymweliadau â'r hosbis a chynhyrchu a rhannu adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau yn llawn o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mewn perthynas ag ymweliadau â'r hosbis a chynhyrchu a rhannu adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath.

#### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, roedd prosesau eisoes ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau. Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol wedi'i sefydlu ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben, yn y canllaw i gleifion ac ar y wefan.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion yn ymwneud â phryderon a digwyddiadau a chanfod yr ymdriniwyd â'r rhain yn unol â pholisïau'r hosbis.

Roedd canmoliaeth a chwynion yn cael eu cofnodi a'u harchwilio. Defnyddiwyd dull dadansoddi achosion sylfaenol ar gyfer ymchwiliadau a oedd yn cydymffurfio, gan amlygu pwyntiau dysgu a'u cyfleu i'r staff.

Disgwylir i staff sy'n ymwneud â digwyddiadau gynnal ymarfer myfyrio ffurfiol i amlygu unrhyw wersi a ddysgwyd ac i wella arfer.

## Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom fod digon o staff yn yr hosbis ar ddiwrnodau'r arolygiad.

Ar adeg ein harolygiad, roedd pedwar o blant a'u teuluoedd yn derbyn gofal a chymorth gan nifer digonol o staff â'r sgiliau priodol.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio'n cael eu haddasu yn ôl nifer y plant sy'n cael eu lletya a'u hanghenion gofal penodol.

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol yn yr hosbis a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd da i'r plant a'u teuluoedd. Gallai'r staff ddisgrifio eu rolau ac roeddent yn wybodus ynglŷn ag anghenion gofal y plant yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Disgwylir i staff newydd gwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol. Roedd y dogfennau a welwyd yn ystod yr arolygiad yn dangos bod y broses gynefino i staff yn gynhwysfawr.

Gwnaethom arolygu sampl o ffeiliau staff a chadarnhau bod gan staff fynediad at yr hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall sy'n benodol i wasanaeth. Cawsom gopi o gynllun hyfforddi staff yr hosbis, a oedd yn gynhwysfawr ac yn rhestru'r pynciau a drafodwyd, y dyddiadau cwblhau a'r dyddiadau dod i ben. Dangosodd y ffigurau hyfforddiant a gyflwynwyd i ni yn ystod yr arolygiad fod cyfraddau cwblhau hyfforddiant yn dda.

Gwnaethom ofyn am wybodaeth sy'n ymwneud ag arfarniadau perfformiad ac roeddem yn gallu cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r staff wedi derbyn arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf. Dywedwyd wrthym mai'r nyrs arwain sy'n cynnal arfarniadau nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Caiff y sesiynau hyn eu cofnodi a'u trosglwyddo i'r tîm adnoddau dynol i'w coladu a'u cadw ar ffeiliau staff unigol. Mae staff yn cadw eu cofnod eu hunain o amcanion.

Cyhoeddodd AGIC arolwg ar-lein i gael barn y staff ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty a'r gefnogaeth a'r hyfforddiant y maent yn eu derbyn. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 29 o ymatebion.

Cadarnhaodd yr holl staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn iechyd a diogelwch, diogelwch tân, rheoli heintiau a diogelu.

Dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi derbyn hyfforddiant Cynnal Bywyd Uwch, ond nid oedd saith aelod o staff wedi derbyn yr hyfforddiant. Dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant Cynnal Bywyd Pediatrig.

Dyweddodd tri chwarter yr ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol/trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, a hyfforddiant is-gyfeirio.

Dyweddodd mwyafrif y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant profedigaeth arall a oedd yn berthnasol i'w maes gwaith, a dywedodd dau aelod o staff nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant profedigaeth.

Dyweddodd bron yr holl staff a lenwodd yr arolwg ar-lein wrthym fod hyfforddiant yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol ac yn eu helpu i fod yn ymwybodol o'r gofynion proffesiynol diweddaraf, gan eu helpu i gynnig profiad gwell ar gyfer cleifion.

Cawsom y sylwadau canlynol gan staff ar yr hyfforddiant a ddarperir yn Nhŷ Hafan:

*“Rwy’n gallu gwneud awgrymiadau i'm rheolwr ac i'r arweinydd datblygiad proffesiynol ynghylch pa hyfforddiant sydd ei angen arnaf. Rwy'n ymwybodol fod y dull hyfforddi yn cael ei adolygu ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gymryd rhan yn hyn.”*

*“Rwy’n teimlo’n hyderus fy mod yn cael fy nghefnogi i gael mynediad at yr holl hyfforddiant perthnasol ac yn cael fy annog i chwilio am gyfleoedd datblygu.”*

*“Rwy’n hyderus bod gennyf fynediad at unrhyw hyfforddiant yr wyf ei angen. Os ydw i'n teimlo fy mod i neu fy nghydweithwyr angen unrhyw beth, byddaf yn rhoi gwybod i'r rheolwr.”*

Dyweddodd dros dri chwarter yr ymatebwyr fod eu rheolwr yn eu cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu, a'u bod yn cael adolygiad neu werthusiad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf pan nodwyd eu hanghenion hyfforddi, dysgu neu ddatblygu.

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan staff yn cynnwys y canlynol:

*“Mae fy rheolwr llinell yn hawdd mynd ato, yn hygyrch ac yn gefnogol iawn ac yn fy annog i ddatblygu fy sgiliau yn barhaus”*

Dyweddodd bron pob un aelod o staff wrthym eu bod yn gallu cyflawni'r holl ofynion sy'n gwrthdaro yn ystod eu hamser yn y gwaith, gyda thua thri chwarter yr aelodau staff yn dweud wrthym fod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer digonol i wneud eu gwaith.

Dywedodd dwy ran o dair o'r staff wrthym fod digon o staff i wneud eu gwaith yn iawn.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*“Ers COVID-19, rydym wedi cael rhai heriau staffio, ond pan fydd hynny'n digwydd rydym yn gwneud addasiadau i sicrhau bod gofal bob amser yn ddiogel.”*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm/adran.

Dywedodd yr holl staff wrthym fod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal.

Dywedodd tua hanner y staff wrthym eu bod yn rhan o'r broses o benderfynu ar newidiadau a gyflwynwyd sy'n effeithio ar eu maes gwaith/tîm/adran.

Dywedodd mwyafrif helaeth y staff wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei roi i gleifion.

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Dywedwyd wrthym fod trosiant staff yn fach iawn gyda mwyafrif y staff wedi gweithio yn Nhŷ Hafan ers dros deng mlynedd.

Dywedwyd wrthym hefyd fod cyfraddau salwch yn isel.

Rheolwyd y broses o recriwtio staff gan dîm Adnoddau Dynol yr hosbis, gan ddilyn polisi a gweithdrefnau recriwtio'r sefydliad. Dywedwyd wrthym fod recriwtio staff yn broses barhaus.

Gwelsom fod mesurau ychwanegol wedi'u sefydlu i gefnogi staff yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys mynediad at raglenni cymorth gweithwyr, hyrwyddwyr llesiant a swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl. Hefyd, roedd ystafell dawel y gallai staff ei defnyddio i gael peth amser i ffwrdd o'r amgylchedd clinigol.

Gwnaeth y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein sylwadau cadarnhaol ar y cymorth y maent yn ei dderbyn gan nodi bod ganddynt ddigon o rym i godi llais a gweithredu os ydynt yn nodi materion yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.

Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr wrthym fod diwylliant o fod yn agored a dysgu yn y sefydliad sy'n cefnogi staff i nodi a datrys problemau, a bod gan y

sefydliad y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol a chymryd camau cyflym pan fydd diffygion.

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno mai gofalu am y plant yw prif flaenoriaeth y sefydliad.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Mae Tŷ Hafan eisiau darparu'r gofal gorau posib, ond yn ymarferol (fel bob lleoliad) mae pobl yn dod yn hunanfodlon ac yn gwneud newidiadau bach i arbed arian. Nid yw pethau'n cael eu glanhau mor drylwyr, ac ni chedwir at reolau rheoli heintiau bob amser. Gallwch chi arwain rhywun i wneud y penderfyniadau cywir, ond ni allwch eu gorfodi."*

*"Rydyn ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu'r gofal gorau ac rydyn ni'n teimlo'n falch o fod yn rhan o dîm sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd."*

*"Rydym yn cael ein hannog i gofio ein bod ni'n un tîm, er bod gennym ni rolau gwahanol. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng gwahanol rannau o'r hosbis"*

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godwyd gan blant neu aelodau eu teulu.

Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr wrthym y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio ac y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan eu sefydliad iddynt hwy neu i'w ffrindiau neu deulu.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Mae ymdeimlad cryf o roi plant a theuluoedd yn gyntaf a gwneud yn siŵr eu bod yn derbyn y gofal gorau."*

Dywedodd bron pob un o'r staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym fod adborth defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gasglu, gyda dwy ran o dair yn dweud wrthym eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth defnyddwyr gwasanaeth a bod adborth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi a'm cefnogi i fod y gorau y gallaf fod ar gyfer y plant a'r teuluoedd. Os ydw*

*i'n rhoi adborth neu'n gwneud awgrymiadau, rydw i bob amser yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf."*

Gwnaeth mwyafrif y staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein sylwadau cadarnhaol ar y cymorth y maent yn ei gael gan eu rheolwr llinell uniongyrchol a'u bod yn eu hannog i weithio fel tîm.

Dyweddodd bron pob un o'r ymatebwyr wrthym y gellir dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu gyda thasg anodd yn y gwaith, a'u bod yn derbyn adborth clir ar eu gwaith.

Dyweddodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol wedi gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Dyweddodd bron pob un o'r ymatebwyr wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol yn gefnogol mewn argyfwng personol a dywedodd un ei fod weithiau'n gefnogol.

Dyweddodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn cytuno bod gan eu rheolwr uniongyrchol ddiddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant.

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd am reolwyr uniongyrchol yn cynnwys y canlynol:

*"Mae fy rheolwr llinell wedi bod yn hynod gefnogol yn ystod y misoedd diwethaf pan wnes i brofi argyfwng personol, a byddwn wedi cael traferth dychwelyd yn hyderus i'r gwaith heb ei chymorth hi."*

*"Ni allwn i ofyn am rheolwr gwell. Mae hi'n rhagorol."*

Gwnaeth mwyafrif y staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein sylwadau cadarnhaol ar y cymorth a gânt gan uwch-reolwyr.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Rwy'n teimlo bod fy rheolwr uniongyrchol yn fy nghefnogi ond rwy'n teimlo fy mod wedi fy ysbrydoli gan ein cyfarwyddwr gofal. Mae hi'n weladwy, yn hygyrch a bob amser ar gael. Mae'n cyflawni ei haddewidion, ac os nad yw'n gallu gwneud rhywbeth, bydd hi bob amser yn esbonio pam nad yw'n bosibl."*

*"Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Gofal newydd, ac mae hi bob amser ar gael os ydw i angen trafod unrhyw beth sy'n bwysig i mi, y tîm a'r plant a'r teuluoedd."*

*Rydyn ni'n ei gweld hi bron bob dydd - mae hyn yn bwysig iawn i ni ac yn golygu nad yw pethau'n pentyrru. Mae hi bob amser yn dweud ein bod yn un tîm a'n bod yn dysgu gyda'n gilydd."*

Dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr wrthym fod y cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff yn effeithiol, a bod yr uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys staff mewn penderfyniadau pwysig.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Gall cyfathrebu fod yn araf, ond ar gyfer pethau pwysig, rydym yn cael adborth. Mae'r Cyfarwyddwr Gofal newydd wedi gwella cyfathrebu yn fawr."*

*"Bu adegau lle roedd y cyfathrebu yn wael pan gafodd rhai pethau eu huwchgyfeirio i'r uwch-reolwyr - nid ydynt bob amser yn dod yn ôl gyda chanlyniad neu adborth i'r unigolion a gododd y materion cychwynnol - mae hyn yn ei gwneud yn llai tebygol i bobl godi pryderon/materion yn y dyfodol. Yn bendant, gellir gwella cyfathrebu"*

*"Ers i'r Cyfarwyddwr Gofal ymuno â'r tîm, mae eglurder cyfathrebu wedi cynyddu'n sylweddol. Mae cyfathrebu ar ei orau ar hyn o bryd. Efallai y bydd pobl sydd wedi bod yn gweithio yma ers amser maith yn edrych ar y cwestiwn hwn ac yn ystyried sut mae pethau wedi cael eu gwneud dros y blynyddoedd, yn hytrach na sut mae pethau'n cael eu gwneud nawr."*

Dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr wrthym fod uwch-reolwyr yn gweithredu ar adborth staff.

Dywedodd bron pob un o'r staff wrthym fod uwch-reolwyr yn ymroddedig i ofal cleifion.

Mae sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*"Rwy'n gwybod 100% y gallaf ddibynnu ar ein Cyfarwyddwr Gofal i gymryd camau pan fo angen ac i fod yno pan fydd ei hangen."*

Roedd tri chwarter y staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein yn cytuno nad yw eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Mae gweithio gyda phlant cymhleth a diwedd oes yn cael effaith andwyol ar eich iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol. Wedi dweud hynny - rydym yn cael cymorth gwych."*

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym fod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol ar iechyd a llesiant, gyda'r mwyafrif yn dweud wrthym eu bod yn cael cynnig cymorth llawn mewn sefyllfaoedd heriol.

Dywedodd bron pob un o'r staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r lechyd Galwedigaethol gyda thua thri chwarter yn dweud wrthym fod eu patrwm gwaith presennol/oddi ar ddyletswydd yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Mae'r patrwm gweithio yn anhrefnus. Gallwch wneud shifft dydd, yna dwy shifft nos, yna cael diwrnod i fwrdd, ac yna gweithio am ddiwrnod arall gyda dim ond 24 awr o seibiant ac ati. Nid oes trefn o weithio, er enghraifft gweithio nosweithiau am bythefnos ac yna gweithio yn ystod y dydd am bythefnos. Rydw i'n ei chael hi'n anodd i drefnu patrwm cysgu pan mae fy oriau gweithio ym mhob man, ond rwy'n gallu gwerthfawrogi'r gwaith anodd sydd gan yr arweinwyr i wneud y rota."*

*"Yn ystod y pandemig bu'n rhaid i ni fod yn fwy hyblyg fel tîm, yn enwedig pan roedd nifer y staff yn lleihau'n sydyn. Rwyf wedi teimlo ychydig dan bwysau weithiau, er nad yw hynny yn fwriadol gan y tîm. Rydyn ni wedi dechrau pethau newydd er mwyn cynyddu'r cymorth sydd ar gael, ac mae pethau bach fel uwch-reolwyr yn dod â lolis rhew i'r gwaith ar ddiwrnod poeth pan fyddwch chi'n gwisgo cyfarpar diogelu personol neu ddanteithion pan mae hi wedi bod yn ddiwrnod arbennig o anodd yn golygu llawer i ni."*

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill, gydag ychydig dros dri chwarter yr ymatebwyr yn dweud wrthym fod y sefydliad yn trin staff sy'n ymwneud â chamgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiad arall yn deg.

Ni ddywedodd yr un o'r staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein eu bod wedi gweld camgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad arall a effeithiodd ar staff yn ystod y mis diwethaf, a dim ond un ymatebwr a ddywedodd wrthym ei fod wedi gweld camgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad arall a effeithiodd ar gleifion yn ystod y mis diwethaf.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Byddwn yn cael ein hannog i adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau, fel y gellir gwneud gwelliannau - nid wyf wedi teimlo'n anghyfforddus i wneud hynny, ein cyfrifoldeb ni ydyw."*

Dywedodd tua thri chwarter yr ymatebwyr wrthym mai'r tro diwethaf iddynt weld camgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad arall eu bod hwy neu gydweithiwr wedi rhoi gwybod amdano.

Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr wrthym fod eu sefydliad yn trin adroddiadau am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill yn gyfrinachol ac nad yw'r sefydliad yn beio nac yn cosbi pobl sy'n ymwneud â chamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

*"Pan fydda i'n siarad â chydweithwyr sydd wedi bod yma ers amser maith, maen nhw'n siarad weithiau am ddiwylliant o fai. Nid yw'n rhywbeth rydw i wedi'i brofi. Rydym yn tybio bod beio yn digwydd weithiau, pan na fydd yn digwydd mewn gwirionedd - ni all pawb symud ymlaen."*

*"Mae hwn yn gwestiwn anodd oherwydd mae pawb bob amser yn teimlo'n ofnadwy os ydynt yn rhan o ddigwyddiad neu gamgymeriad. Os bydd camau priodol yn cael eu cymryd yn dilyn digwyddiad, gall deimlo fel bod y bai yn cael ei roi arnoch, ond mewn gwirionedd, gwneud y peth iawn yw hyn"*

Dywedodd yr holl ymatebwyr, pan adroddwyd ar gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill, fod eu sefydliad yn cymryd camau gweithredu i sicrhau na fyddent yn digwydd eto.

Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau

eraill sy'n digwydd yn y sefydliad a'u bod yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill a adroddwyd.

Dyweddodd yr holl staff a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym, pe baent yn pryderu am arfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i adrodd amdano ac y byddent yn teimlo'n ddiogel yn nodi unrhyw bryderon.

Dyweddodd tua thri chwarter yr ymatebwyr eu bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Yn yr arolwg ar-lein, fe wnaethom ofyn a oedd staff wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Adroddodd un wahaniaethu ar sail rhyw ac un ar sail 'arall'.

Dyweddodd mwyafrif yr ymatebwyr wrthym fod gan staff fynediad teg a chyfartal at gyfleoedd yn y gweithle (heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

Dyweddodd bron pob un o'r ymatebwyr wrthym fod eu gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r unigolion cofrestredig adolygu ymatebion y staff i'r arolwg ar-lein ac ystyried a oes modd gwneud gwelliannau pellach i'r ffordd y mae'r staff yn cael eu cefnogi.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyflawni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer y Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                              | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|-------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|------------------------------------------|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. |                                                        |                                          |                                |

## Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth:

Tŷ Hafan

Dyddiad yr arolygiad:

19 a 20 Hydref 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella                                                                                                                                                                          | Rheoliad / Safon                                                        | Camau gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Swyddog cyfrifol             | Amserlen    |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|-------------|
| Ansawdd profiad y claf                                                                                                                                                                               |                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                              |             |
| Dylai'r unigolion cofrestredig werthuso'r awgrymiadau a wnaed gan y rhieni/gwarcheidwaid mewn ymateb i'r arolwg ar-lein ac ystyried a ellir gwneud gwelliannau pellach i'r gwasanaethau a ddarperir. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>Rheoliad 19. (2) (e) | 1. Adolygu canfyddiadau'r arolwg ar-lein a chreu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i feysydd allweddol a nodwyd yn yr adroddiad<br>2. Ystum y corff<br>2a. Adolygu'r ymagwedd bresennol at ofal a chymorth ystum y corff a nodi meysydd i'w gwella<br>2b. Cynllunio a darparu hyfforddiant ychwanegol i gryfhau sgiliau a hyder y tîm gofal<br>2c. Ymgorffori adolygiad ffisiotherapi mewn cynlluniau gofal ar gyfer plant | Rheolwr Cofrestredig         | Ionawr 2022 |
|                                                                                                                                                                                                      | Safon 3. Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Pennaeth Gwasanaethau Hosbis | Ebrill 2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Swyddog cyfrifol                                                                      | Amserlen                              |
|-----------------------------|------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|
|                             |                  | <p>sydd ag anghenion ystum y corff penodol neu gymhleth</p> <p>3. Cynlluniau gofal:</p> <p>3a. Ailedrych ar y broses ar gyfer adolygu cynlluniau gofal i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion y plentyn a'r teulu yn llawn er mwyn nodi lle mae angen gwelliannau</p> <p>3b. Lle nodir gwelliannau, dylid cytuno ar gynlluniau gweithredu sy'n cael eu holrhain hyd at eu cwblhau</p> <p>3c Sicrhau bod prosesau ar gyfer adolygu parhaus wedi'u hymgorffori'n llawn</p> <p>3. Digwyddiadau yn Abertawe a Gorllewin Cymru</p> <p>3a. Pan fydd cyfyngiadau'r pandemig yn caniatáu, ailfywiogi'r cynllun cyn-bandemig i ehangu argaeledd digwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau brodyr a chwiorydd, yn Abertawe a Gorllewin Cymru</p> | <p>Nyrs Arwain Ansawdd a Llywodraethu</p> <p>Pennaeth Cymunedol a Phartneriaethau</p> | <p>Mawrth 2022</p> <p>Ebrill 2022</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella                                                                                                  | Rheoliad / Safon                                                                                                        | Camau gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Swyddog cyfrifol             | Amserlen      |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|---------------|
|                                                                                                                              |                                                                                                                         | <p>3b. Parhau i gwmpasu lleoliadau newydd posibl ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau</p> <p>3c. Cyfathrebu rhaglen o ddigwyddiadau yn glir gyda theuluoedd</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                              |               |
| Rhaid i'r unigolion cofrestredig sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn cael adborth manwl am arhosiad eu plentyn yn Nhŷ Hafan. | <p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 39. (d)</p> <p>Safon 18. Cyfathrebu'n effeithiol</p> | <p>1. Adolygu'r dull presennol o roi adborth i rieni/gwarcheidwaid yn dilyn arhosiad eu plentyn yn yr hosbis</p> <p>2. Cyflwyno pwynt gwirio newydd cyn neu ar adeg derbyn i nodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer adborth yn ystod, ac yn dilyn, arhosiad plentyn.</p> <p>3. Cyflwyno cwestiwn newydd i'r holiadur adborth teuluoedd i benderfynu a yw'r wybodaeth a ddarperir yn bodloni anghenion rhieni/gwarcheidwaid</p> <p>4. Datblygu'r ymagwedd a cheisio awgrymiadau i sicrhau gwelliannau ansawdd parhaus</p> | Pennaeth Gwasanaethau Hosbis | Chwefror 2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella                                                                                                                                                                                                                                      | Rheoliad / Safon                                                                                              | Camau gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Swyddog cyfrifol  | Amserlen      |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|---------------|
| <b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                   |               |
| Rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau yn llawn o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mewn perthynas ag ymweliadau â'r hosbis a chynhyrchu a rhannu adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011                                                               | 1. Darparu adroddiad trosolwg o weithgarwch ymgysylltu a sicrwydd a gyflawnwyd yn ystod y pandemig                                                                                                                                                                                                                                              | Cyfarwyddwr Gofal | Chwefror 2022 |
|                                                                                                                                                                                                                                                                  | Safon 1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd                                                                | 2. Diffinio a chyfleu'r dull ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol a chreu amserlen adrodd                                                                                                                                                                                                                                                           | Cyfarwyddwr Gofal | Ebrill 2022   |
|                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                               | 3. Cynhyrchu a threfnu bod adroddiadau ar gael i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru                                                                                                                                                                                                                                                                 | Cyfarwyddwr Gofal | O Ebrill 2022 |
| Dylai'r unigolion cofrestredig adolygu ymatebion y staff i'r arolwg ar-lein ac ystyried a oes modd gwneud gwelliannau pellach i'r ffordd y mae'r staff yn cael eu cefnogi.                                                                                       | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>Rheoliad 19. (2) (e)<br><br>Safon 24. Arferion recriwtio a | 1. Rhannu canfyddiadau'r arolwg staff â chydweithwyr<br>2. Trafod themâu allweddol o fewn y fforwm staff ac annog staff i gyfrannu syniadau i gryfhau cymorth staff<br>3. Cynnig argaeledd i unrhyw staff sydd am rannu themâu neu faterion ar sail un i un<br><br>3. Parhau i ymgorffori rhaglenni llesiant a chymorth sydd newydd eu sefydlu, | Cyfarwyddwr Gofal | Ebrill 2022   |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon    | Camau gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                     | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------|---------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|----------|
|                             | chyflogi'r gweithlu | gan gynnwys hyrwyddwyr llesiant a phecyn cymorth llesiant; hyrwyddo mynediad at gymorth ychwanegol gan gynnwys goruchwyliaeth glinigol a'r rhaglen cymorth i gyflogeion ac annog pobl i'w derbyn. |                  |          |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):**Deborah Ho

**Swydd:** Cyfarwyddwr Gofal, Unigolyn Cyfrifol

**Dyddiad:** Ionawr 2022